# <u>Cyngor Cymuned Llandderfel.</u>

Cyfarfu'r Cyngor Nos Fawrth Chwefror 7fed, yn Neuadd Bro Derfel. Yn bresennol oedd Maldwyn Jones (cadeirydd), Alwyn Jones, Gwenda Evans, Eilir Rowlands, Gwenda Morris, Meilir Jones, Rita Jones, Cyng. Elwyn Edwards a'r clerc.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Gwynedd Jones, Iolo V. Evans, Eifion Davies a Bethan Thomas.

**i)** Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Rhagfyr a chyfarfod cyhoeddus i drafod Cynllun Fferm Wynt Gaerwen (Rhagfyr 2il 2022) a chafwyd yn gywir. Gan fod cyfarfod Fferm Wynt Gaerwen yn gyfarfod cyhoeddus gofynnwyd i'r clerc i'w cyfieithu i'r Saesneg hefyd

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Datganodd Meilir Jones ei fuddiant yng nghais cynllunio Bryn Derw a gadawodd y cyfarfod yn ystod y drafodaeth.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Ymatebion am y cwynion/materion a godwyd:-</u>
i) Llechi yn rhydd ar do'r Hen Ysgol Fritanaidd, Glanrafon – gofynnwyd i'r clerc ail gysylltu â'r swyddog ynglŷn â hyn.
ii) Pont a Sgwâr Llandderfel – cafwyd cadarnhad fod bwriad ail-wynebu'r ffordd cyn diwedd y flwyddyn ariannol. Cytunwyd i roi pwysau ar yr Adran i'w wneud yn flaenoriaeth.
iii) Arwyddion toiledau Llandderfel – roedd pwyllgor y neuadd wedi cadarnhau'r nifer o arwyddion a lle y byddant yn dymuno iddynt gael ei gosod. Roedd y clerc wedi pasio'r wybodaeth yma ymlaen i Gyngor Gwynedd brisio'r gwaith.

<u>b) Gwelliannau i'r mynwentydd.</u>
Yn anffodus roedd Cronfa Melinau Gwynt Clocaenog wedi cau tan yr haf. Cytunwyd i gwrdd ar ddydd Sadwrn Chwefror 18fed i ymweld â'r mynwentydd i drafod pa welliannau y byddai'n bosib i'w gynnwys yn y cais i'r gronfa.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Cwmni Pum Plwy Penllyn/ Partneriaeth Penllyn.</u>
i) Rhestr o gyfarfodydd 2023.
ii) Calendr gweithgareddau Chwefror Canolfan Henblas.

<u>b) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Cynllun Llesiant Gwynedd a Môn - cyfle i ddweud eich dweud.
ii) Newid arfaethedig i derfynau cyflymder. Cafwyd cadarnhad y byddai cyfyngiad cyflymder pentref Llandderfel yn cael ei ostwng i 20 m.y.a. ym mis Medi.

<u>c) Amrywiol.</u>
i) Llywodraeth Cymru - Grant ymgysylltu â democratiaeth
ii) Gorsaf Heddlu Bala - cynnig ymweld â chyfarfodydd y Cyngor a'n hysbysu fod chyllid ar gael o Gronfa PACT.
iii) Parc Cenedlaethol Eryri - Cynllun grantiau datgarboneiddio cynaliadwy ardaloedd cadwraeth.
iv) Parc Cenedlaethol Eryri - Sefyllfa Parcio Meysydd Parcio Llyn Tegid a Llangywer.



Arwyddwyd: ……………………………………………. Dyddiad: …………………………………..

**v) Ceisiadau Cynllunio.**

a) Derbyniwyd y ceisiadau cynllunio canlynol, nid oedd y cynghorwyr yn ymwybodol o unrhyw wrthwynebiad lleol:-
a) NP5/63/LU282 - Safle Gwaith Trin Dŵr Gwastraff Bala.
b) C23/0006/04/LL – Adeiladu storfa slyri. Bryn Derw, Glanrafon (Meilir Jones yn datgan ei fuddiant a gadawodd yr ystafell yn ystod y drafodaeth).
c) C23/0010/04/TC - Defnydd cyn feudy amaethyddol ar gyfer storio domestig. Tŷ Tan y Graig, Llandderfel.
ch) C23/0040/04/LL: Ail gyflwyniad - Lleoli 5 o bodiau glampio, adeiladu bloc cyfleusterau, gosod system trin carthion a draeniau, creu mynedfa gerbydol a lle parcio a thirweddu. Refail Isaf, Llanfor.

**vi) Materion Ariannol.**

a) Penodi Archwiliwr Mewnol.
Cytunwyd yn unfrydol i benodi Uned Archwilio Fewnol Cyngor Gwynedd i archwilio'r cyfrifon. Gofynnwyd i'r clerc anfon y llythyr ymrwymiad arferol iddynt.

b) Adroddiad Ariannol (Hydref-Rhagfyr).
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Rhagfyr a chafwyd yn gywir.

c) Taliadau.
Cytunwyd i dalu'r canlynol:-
i) Tanysgrifiad Zoom (1/2 y gost gyda Chyngor Llanycil).
ii) Gliniadur newydd a manion (1/2 y gost gyda Chyngor Llanycil). Nodwyd y byddai'n cael ei ychwanegu i bolisi yswiriant Llanycil gan na fyddai cost ychwangeol am wneud hyn.
iii) H G Web Designs (gwefan).

ch) Ceisiadau Ariannol.
i) Derbyniwyd ceisiadau gan Sioe CFFI Cwm, Ambiwlans Awyr Cymru, Yes Cymru, Eisteddfod yr Urdd Cylch Penllyn, CFFI Meirionnydd, Eisteddfod Talaith a Chadair Powys, Edeyrnion a Phenllyn 2023. Cytunwyd i gyfrannu'r £100 a oedd wedi ei glustnodi o gyllideb 2021-22 ar gyfer Sioe CFFI Cwm a thrafod gweddill o'r ceisiadau yn ein cyfarfod ym mis Mawrth

**vii) Materion lleol.**

a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r cwynion canlynol ymlaen i'r adrannau perthnasol:-
i) Cais am oleuadau ychwanegol wrth Ysgol Bro Tryweryn, Frongoch. Gofynnwyd hefyd i'w atgoffa o'i addewid i drwsio'r ffordd.
ii) Cais i wella cyfleusterau safle casglu sbwriel sydd rhwng Ty'n Bwlch a Bryn Derw, Glanrafon.
iii) Goryrru ar yr A494 – roedd y sefyllfa dal yn peru gofid i'r cynghorwyr. Cytunwyd i ofyn am gefnogaeth Llywodraethwyr Ffridd y Llyn ac i Gyngor Gwynedd am fesur lefelau traffig ar hyd y ffordd yng Nghefnddwysarn.
iv) Blaenoriaeth graeanu ffyrdd Cyngor Gwynedd – gofynnwyd i'r clerc wneud ymholiadau os oedd blaenoriaeth i raeanu ffyrdd lle'r oedd bobl a oedd yn derbyn gofal yn byw.

# Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Lun, Mawrth 6ed am 7.30 y.h. yn Neuadd Bro Derfel.



Arwyddwyd: …………………………………………. Dyddiad: …………………………………..